| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 19 GORFFENNAF 2012 |
| **TEITL** | STRATEGAETH ARBEDION |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Peredur Jenkins |
| | |

## 1 CEFNDIR

1.1 Mae'r Pwyllgor craffu Corfforaethol wedi nodi ei fod yn dymuno craffu'r strategaeth arbedion ac wedi gofyn i mi roddi rhywfaint o gefndir i'r maes er budd yr aelodau newydd ac egluro lle mae'r strategaeth wedi cyrraedd erbyn hyn.

1.2 Yn ogystal gofynnwyd i mi nodi beth yw'r bwlch cyllidol yr ydym yn gorfod ei wynebu a'r hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn i gyfarch hynny.

1.3 Gofynnwyd i mi hefyd ateb y cwestiynau canlynol –

- A yw'r gwaith ar y rhaglen arbedion sydd wedi ei gymeradwyo "on track" neu a oes yna broblemau wedi codi gyda gwireddu rhai cynlluniau ? Os oes, beth sydd wedi ei wneud i ddelio a hynny ?

- Mae pwyslais wedi ei osod hyd yn hyn yn y rhaglen arbedion ar gynlluniau effeithlonrwydd. Pa sicrwydd y mae'r aelod cabinet yn medru cynnig nad yw'r arbedion effeithlonrwydd hyn wedi cael effaith ar ansawdd gwasanaeth yn y meysydd lle gwnaed yr arbedion effeithlonrwydd hynny ?

- Os arweiniodd yr arbedion sydd wedi eu cymeradwyo at golli swyddi, pa swyddi oedd y rheini ac ym mha ardaloedd y gwelwyd y golled ?

- Gyda golwg ar y bwlch sydd yn weddill i'w lenwi yn y rhaglen arbedion at y dyfodol, beth yw'r bwriad o ran cydbwysedd rhwng arbedion effeithlonrwydd ar y naill law a thoriadau ar y llall ?

- Os bydd toriadau yn gorfod bod yn rhan o'r rhaglen i'r dyfodol, pa bryd mae hynny'n debygol o ddigwydd a sut y mae'r Aelod cabinet am fynd ati i adnabod y toriadau hynny a pha mor gynhwysol fydd y drefn ar gyfer eu hadnabod ?

1.4 Rhoddir sylw i'r materion yma yng ngweddill yr adroddiad.

## 2 CEFNDIR I'R STRATEGAETH ARBEDION A'R CYNNYDD ERBYN HYN

2.1 Mae gan Gyngor Gwynedd hanes clodwiw o fod a chynlluniau ariannol cadarn. Fe amlygir hyn yn aml gan yr Archwiliwr Dosbarth yn ei asesiadau blynyddol o'r Cyngor. Un o ganlyniadau hyn yw ein bod yn sefydlu cynlluniau ariannol tymor canolig sy'n rhedeg dros nifer o flynyddoedd yn hytrach na dim ond cyllidebu ar gyfer blwyddyn ar y tro.

2.2 Mae hyn yn caniatáu i ni gynllunio'n rhesymegol ar gyfer y dyfodol yn hytrach na gorfod darganfod arbedion ar frys. Yn aml iawn, o fod yn darganfod arbedion ar frys, 'rydych yn diweddu fyny yn torri gwasanaethau heb yn gyntaf gael gwared ag unrhyw aneffeithlonrwydd sy'n gorwedd o fewn y Cyngor gan ei fod yn aml yn haws torri na chael gwared ag aneffeithlonrwydd.

2.3 Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor ar ganol gweithredu ei gynllun ariannol pedair blynedd oedd yn cychwyn yn 2011/12 ac yn ymestyn hyd at 2014/15.

2.4 Dangosir y cynllun presennol isod.

**Tabl 1**
**Tafluniad cyllidebol at ddibenion cynllunio 2011/12 – 2014/15**

| | 11/12 | 12/13 | 13/14 | 14/15 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Diffyg cyllidol a ragwelwyd | 8.6 | 8.4 | 9.6 | 10.6 | 37.2 |
| Treth Gyngor | (1.9) | (2.0) | (2.4) | (2.1) | (8.4) |
| Arbedion £16m | (4.9) | (3.8) | (1.3) | (0.9) | (10.9) |
| Newid polisi cyllidebu | (1.2) | (0.4) | - | - | (1.6) |
| 1% effeithlonrwydd gwasanaeth | - | (1.5) | (1.8) | (2.0) | (5.3) |
| Effeithlonrwydd pellach | (0.5) | (0.7) | (1.4) | (2.0) | (4.6) |
| Codi incwm | - | (0.3) | (0.1) | - | (0.4) |
| Toriadau | (0.1) | 0.3 | (2.6) | (3.6) | (6.0) |

2.5 Fe welir uchod ein bod yn taflunio diffyg cyllidebol dros y pedair blynedd o gwmpas y £37m ac ein bod am ddarganfod y bwlch yma drwy gynyddu rhywfaint ar y Dreth Gyngor, ynghyd a chyfuniad o nifer o brosiectau sydd am arwain at symiau gwahanol.

2.6 Rhaid nodi wrth gwrs mai tafluniad yw'r pennawd ***"Diffyg cyllidol a ragwelir"*** a gyfrifir gan at ddibenion cynllunio, yn seiliedig ar dafluniad o anghenion gwariant y Cyngor a'r grant y byddwn yn ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae'r sefyllfa'n llai eglur y pellach yr awn i'r dyfodol. Cyferchir hyn drwy ail ymweld â'r sefyllfa wrth baratoi cyllidebau blynyddol.

2.7 Mae'r pennawd ***"Arbedion £16m"*** yn deillio o raglen o arbedion a sefydlwyd gan y cyn gyngor yn ôl yn 2009 i'w gwireddu dros flynyddoedd 2010/11; 2011/12; a 2012/13. Mae'r arbedion yma yn ymestyn ymlaen i 2014/15 bellach oherwydd i ni dan amcanu faint o amser fyddai ei angen i wireddu rhai o'r cynlluniau dan sylw. 'Roedd y cynlluniau yma yn gyfuniad o arbedion effeithlonrwydd, codi incwm ac elfen fechan o doriadau.

2.8 Mae'r pennawd ***"Newid polisi cyllidebu"*** yn ymwneud a chyfyngu chwyddiant ar rai penawdau dewisol ac addasu ffigyrau chwyddiant ar rai eraill. Fe ddylem fedru gwneud hyn heb amharu ar ein gallu i gyflawni gwasanaethau gan mai ar benawdau dewisol y unig y gweithredir y cyfyngiad, a thrwy hynny ni ddylai gael effaith ar wasanaethau – yn enwedig o'i gyfyngu i ddwy flynedd dyweder.

2.9 Mae'r pennawd ***"1% effeithlonrwydd gwasanaeth"*** yn cyfeirio at yr angen i bob gwasanaeth ddarganfod arbedion effeithlonrwydd 1% ar gyfer 2011/12, 2012/13,2013/14 a 2014/15 (heblaw'r gyllideb a ddatganolir i ysgolion ar hyn o bryd). Gellir gweld rhestr o'r cynlluniau yma ar raglen Bwrdd Cyngor Gwynedd a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr y llynedd ar safle we'r Cyngor yn y cyfeiriad isod –

http://www.gwynedd.gov.uk/ADNPwyllgorau/2011/Bwrdd%20y%20Cyngor/2011-12-13/cymraeg/06_02_Atodiad%201.pdf

2.10 Mae'r llinell ***"effeithlonrwydd pellach"*** yn cyfeirio at unrhyw gynlluniau lle mae angen ateb corfforaethol neu lle na all gwasanaeth o reidrwydd eu cyflawni heb gymorth corfforaethol. Gall hefyd gynnwys cynllunia na ddewiswyd gan wasanaethau ar gyfer eu 1% ond lle ystyriwyd fod yna le i edrych arno a lle comisiynwyd hynny gan y Bwrdd yn flaenorol. Mae'r pennawd yna yn gyfuniad o gynlluniau sydd wed eu cyflawni; cynlluniau lle 'rydym yn aros am gymeradwyaeth y cabinet; cynlluniau sy'n cael eu datblygu a syniadau i ymchwilio iddynt. Nodir y math o syniadau sy'n ymddangos yma yn Atodiad 1.

2.11 Mae'r pennawd ***"codi incwm"*** yn edrych ar gyfleoedd posibl i godi incwm lle mae yna dystiolaeth ein bod yn codi llai o incwm na chynghorau eraill cyfatebol neu lle gwelir cyfle arall posibl.

2.12 Yn sgil ethol y Cyngor newydd, bydd yn rhaid llunio cynllun ariannol tymor canolig newydd fydd yn cyd-fynd ag oes y Cyngor newydd (sef un fydd yn rhedeg o 2013/14 hyd at 2016/17), ac fel rhan o'r gaith cynllunio yma byddwn yn llunio strategaeth arbedion newydd hefyd.

2.13 Rhagwelir y bydd y gwaith yma yn cael ei lunio er mwyn i'r Cyngor ei ystyried yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

**3 A yw'r gwaith ar y rhaglen arbedion sydd wedi ei gymeradwyo "on track" neu a oes yna broblemau wedi codi gyda gwireddu rhai cynlluniau ? Os oes, beth sydd wedi ei wneud i ddelio a hynny**

3.1 Gyda rhaglen arbedion gwerth tua £29m dros bedair blynedd, yn amlwg nid yw popeth am fynd yn llyfn.

3.2 Yr hyn sy'n bwysig yw ein bod yn monitro'r sefyllfa yn ofalus a cheisio cyflawni cymaint o'r cynlluniau ag y gallwn gan dderbyn y bydd yn rhaid i ni fod yn hyblyg er mwyn cwrdd â'r materion hynny sydd am godi na allwn eu rheoli.

3.3 I'r perwyl yma, mae yna Fwrdd Project dan arweiniad y Pennaeth Strategol a Gwella sydd a'r dasg o fonitro yn ofalus pob un cynllun o fewn y portfffolio ***"Arbedion £16m"***; ***"Effeithlonrwydd 1% Gwasanaethau"*** ac ***"Effeithlonrwydd Corfforaethol"*** er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni. Bydd y bwrdd project yn adrodd yn rheolaidd i mi ar gynnydd.

3.4 O ran cynlluniau llynedd, o'r 126 cynllun y disgwyliwyd eu cyflawni, dim ond 11 sydd heb gyflawni'r arbedion yn llawn hyd yma (yn golygu fodyn rhaid pontio £515,000. Mae'r oedi o fewn y rhan fwyaf o'r rhain yn deillio oherwydd ein bod yn dibynnu ar bartneriaid allanol neu oherwydd bod cyflawni'r arbediad yn profi'n fwy cymhleth na ddisgwyliwyd.

3.5 O ran eleni, o'r 162 cynllun dan sylw, mae yna 16 sy'n llithro rhywfaint o ran cyflawni'r arbediad (allasai olygu y bydd oedi ar gyflawni tua £676,000 o'r arbedion gyda 2 gynllun yn debygol o fethu a chyrraedd y swm a ragwelwyd (gwerth £75,000). Yn amlwg bydd disgwyl i'r gwasanaethau dan sylw ddod a chynlluniau eraill ymlaen i gymryd lle'r cynlluniau yma.

3.6 O'r 62 cynllun fydd yn cael eu gwireddu yn 2013/14, mae yna 41 sydd eisoes wedi eu categoreiddio yn rai lle disgwylir cyflawni yn llawn ac yn amserol gydag 17 yn rai lle asesir fod yna rai risgiau i gyflawni, gyda 4 lle mae yna risg sylweddol o hyd i gyflawni. Bydd y Bwrdd Project yn cadw golwg agos ar rain dros y flwyddyn i sicrhau eu bod yn barod i gyflawni'r arbediad ar 1 Ebrill 2013.

4 **Mae pwyslais wedi ei osod hyd yn hyn yn y rhaglen arbedion ar gynlluniau effeithlonrwydd. Pa sicrwydd y mae'r aelod cabinet yn medru cynnig nad yw'r arbedion effeithlonrwydd hyn wedi cael effaith ar ansawdd gwasanaeth yn y meysydd lle gwnaed yr arbedion effeithlonrwydd hynny ?**

4.1 'Rwyf ar hyn o bryd wedi comisiynu gwaith i wneud asesiad o beth sydd wedi digwydd i fesurau perfformiad yn y meysydd hynny lle bu i ni gyflawni arbedion effeithlonrwydd. Os oes yna effaith wedi bod ar

ansawdd gwasanaeth, yn ddamcaniaethol, fe ddylem weld y mesurau hynny yn gwaethygu.

4.2 Wrth gwrs, mae hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth fod y mesurau perfformiad sydd gan wasanaethau yn adlewyrchu'r effaith ar ein pobl.

4.3 Dwi'n disgwyl i'r gwaith hwnnw gael ei gyflawni erbyn diwedd yr haf.

4.4 Byddaf yn parhau gyda'r asesiad yma trwy gydol y broses cyflawni arbedion.

5 **Os arweiniodd yr arbedion sydd wedi eu cymeradwyo at golli swyddi, pa swyddi oedd y rheini ac ym mha ardaloedd y gwelwyd y golled ?**

5.1 Tra mai'r prif amcan wrth geisio cau'r bwlch yw ceisio effeithio cyn lleied â phosibl ar bobl Gwynedd, mae'r Cyngor hefyd yn gyflogwr pwysig yn y sir, ac mae gennym egwyddor hefyd i geisio cadw'r golled swyddi i'r isafswm posibl.

5.2 Golyga hyn felly, mai'r cynllun arbediad delfrydol yw cynllun arbediad effeithlonrwydd sydd ddim yn effeithio ar swyddi. Mae yna nifer o enghreifftiau o rain yn ein cynlluniau arbedion.

5.3 Mae cadw cyfrif o'r swyddi a gollir a lleoliad y swyddi hynny yn bwysig er mwyn sicrhau nad ydym yn cael ardrawiad anghymesur ar ardaloedd unigol.

5.4 Dengys y dadansoddiad diweddaraf y sefyllfa a nodir yn atodiad 2.

6 **Gyda golwg ar y bwlch sydd yn weddill i'w lenwi yn y rhaglen arbedion at y dyfodol, beth yw'r bwriad o ran cydbwysedd rhwng arbedion effeithlonrwydd ar y naill law a thoriadau ar y llall ?**

6.1 O fewn y rhaglen bresennol fe nodir y cydbwysedd yma yn Nhabl 1 uchod.

6.2 Wedi dweud hynny, fe welir yn nhabl 1 ein bod wedi taflunio yn wreiddiol y gallasem fod angen dibynu ar doriadau yn 2013/14. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae yna le i ystyried na fydd angen ystyried camau o'r fath hyd nes 2014/15 ar y cynharaf oherwydd y cyfyngiad ar godiadau cyflogau staff yn y sector gyhoeddus yn ystod 2012/13. Gan ein bod wedi darparu ar gyfer sefyllfa waethaf, fe olyga hyn na fydd diffyg cyllidebol 2012/13 cymaint ag y rhagwelwyd, sydd yn ei dro, yn cael effaith buddiol ar sefyllfa 2013/14.

6.3 Wrth gwrs, fel y nodir uchod, byddwn yn ail ymweld â'r strategaeth ariannol tymor canolig a'i hail sefydlu yn ystod y flwyddyn hon. Bydd

hyn yn cynnwys sefydlu ffigwr diwygiedig ar gyfer y bwlch ariannol am y pedair blynedd i ddod a strategaeth arbedion newydd ar gyfer cyfarch y bwlch hwnnw. Yn sgil hynny fe fydd angen ystyried yr angen am doriadau o'r newydd.

7 **Os bydd toriadau yn gorfod bod yn rhan o'r rhaglen i'r dyfodol, pa bryd mae hynny'n debygol o ddigwydd a sut y mae'r Aelod cabinet am fynd ati i adnabod y toriadau hynny a pha mor gynhwysol fydd y drefn ar gyfer eu hadnabod ?**

7.1 Yn naturiol gan nad ydym eto wedi sefydlu'r strategaeth ddiwygiedig ni ellir bod yn bendant ynglŷn â'r angen am doriadau.

7.2 Fodd bynnag os byddwn yn y sefyllfa yma bydd yn hanfodol ein bod yn asesu lle i dorri ar ol cael barn ein trigolion. Ar hyn o bryd felly os bydd rhaid darganfod toriadau, fy mwriad fyddai sefydlu rhestr hir o feysydd posibl ar gyfer cyflawni'r toriadau hynny a mynd a'r rhestr honno at bobl Gwynedd drwy gyfres helaeth o sesiynau cyhoeddus mewn gwahanol gymunedau er mwyn canfod eu barn.

7.3 Wedyn byddai angen sicrhau trefn ar gyfer rhoi cyfle i drwch yr aelodau hefyd weld y farn a gafwyd ac i roddi eu barn hwy hefyd cyn dod i gasgliad.

**ATODIAD 1**

## Cynlluniau yn derbyn sylw ar hyn o bryd o dan y pennawd "Arbedion Effeithlonrwydd Pellach"

| | **£'000** |
|---|---|
| **Cynlluniau a gyflawnwyd (neu sydd ar fin eu cyflawni)** | |
| Arbedion hysbysebu swyddi | 95 |
| Lleihau cyfraniadau pensiwn | 28 |
| Lleihau costau yswiriant y Cyngor | 326 |
| Lleihau treuliau teithio staff | 231 |
| Cyfuno'r rhwydwaith ffon a data | 128 |
| Caffael deunydd technoleg gwybodaeth | 2 |
| Cynnal achos i sicrhau ad-daliad treth tirlenwi | 795* |
| Arbediad lwfans aelodau | 2* |
| Project cydweithio i herio discownt person sengl | 180** |
| Arbedion diwrnod streic | 200** |
| | |
| **Cynlluniau sy'n aros cymeradwyaeth** | |
| Cyfyngu chwyddiant ym maes Priffyrdd | 265 |
| Cyfyngu ar gyfraniad at strategaeth cynhwysiad Uwchradd | 350 |
| | |
| **Cynlluniau neu syniadau sy'n cael eu datblygu (amcangyfrif o'r swm posibl)** | |
| Cyfundrefn systems | 370 |
| Cyfres o adolygiadau strategol o fewn meysydd penodol | 200 |
| Projectau cydweithio | 375 |
| Arbedion pellach ar gostau cyflogi | 570 |
| Amrywiol brojectau defnydd technoleg | 325 |

* Swm unwaith ac am byth yn unig
** Gwaith yn parhau i sefydlu'r union swm

**ATODIAD 2**

**Cyfrifiad o nifer swyddi a gollwyd oherwydd arbedion 2010/11 a 2011/12.**

Nodir isod y swyddi a gollwyd yn sgil yr arbedion dros y ddwy flynedd diwethaf –

**2010/11**

| | **Cyfanswm swyddi dynnwyd o'r gyllideb (Cyfwerth amser-llawn)** | *Sut cyflawnwyd:* **Diswyddo** | **Diddymu swyddi gwag** | **Ymddeol** | **Gostwng oriau** | **Trosg. i gorff arall** | *Rhaniad fesul ardal:* **Arfon** | **Dwyfor** | **Meirionnydd** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau Dynol | 3 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 |
| Addysg | 3 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 2 |
| Cyllid | 15.4 | 2 | 8.9 | 4 | 0.5 | 0 | 11.4 | 2 | 2 |
| Darparu a Hamdden | 7 | 0 | 7 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 3 |
| Democratiaeth a Chyfreithiol | 1.5 | 0 | 0.5 | 1 | 0 | 0 | 1.5 | 0 | 0 |
| Economi a Chymuned | 38 | 2 | 1 | 0 | 0 | 35 | 36 | 2 | 0 |
| Gofal Cwsmer | 2.5 | 0 | 2.5 | 0 | 0 | 0 | 2.5 | 0 | 0 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 3 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 |
| Rheoleiddio | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Strategol a Gwella | 2.5 | 0 | 2.5 | 0 | 0 | 0 | 2.5 | 0 | 0 |
| Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | 3 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 1 |
| Ymgynghoriaeth | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| | **80.9** | **7** | **32.4** | **6** | **0.5** | **35** | **64.9** | **8** | **8** |

## 2011/12

| | Cyfanswm swyddi dynnwyd o'r gyllideb (Cyfwerth amser-llawn) | *Sut cyflawnwyd / bwriedir cyflawni:* Diswyddo | Diddymu swyddi gwag | Ymddeol | Gostwng oriau | Trosg i gorff arall | *Rhaniad fesul ardal:* Arfon | Dwyfor | Meirionnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau Dynol | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Addysg | 3.1 | 0 | 3 | 0 | 0.1 | 0 | 3.1 | 0 | 0 |
| Cyllid | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Darparu a Hamdden | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0.5 | 0 | 0.5 |
| Democratiaeth a Chyfreithiol | 2.5 | 0 | 1.5 | 0.5 | 0.5 | 0 | 2.5 | 0 | 0 |
| Economi a Chymuned | 10 | 7 | 1 | 2 | 0 | 0 | 4 | 3 | 3 |
| Gofal Cwsmer | 9.5 | 5.5 | 4 | 0 | 0 | 0 | 6.5 | 0 | 3 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 5 | 0 | 1 | 4 | 0 | 0 | 5 | 0 | 0 |
| Rheoleiddio | 8.5 | 6.5 | 2 | 0 | 0 | 0 | 5.5 | 1.5 | 1.5 |
| Strategol a Gwella | 2 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 |
| Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | 1.1 | 0 | 1.1 | 0 | 0 | 0 | 1.1 | 0 | 0 |
| Ymgynghoriaeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **43.7** | **20** | **16.6** | **6.5** | **0.6** | **0** | **31.2** | **4.5** | **8** |